

Eisteddfod Penrhyn-coch 2023

Tlws yr Ifanc

Mae pedwar wedi cystadlu am y tlws hwn eleni, sef, yn nhrefn y wyddor, Draenog, Heulwen, Rhyddid a Tydu. Er mai nifer fechan ydynt, mae amrywiaeth o ymatebion wedi dod i'r testun gosod, sef 'Ailwylltio. Ie neu Nage?', ac fe gefais flas ar bob ymgais.

Penillion ar fydr ac odl a gafwyd gan **Heulwen** yn cyflwyno dwy ochr y ddadl mewn modd uniongyrchol, gan godi gwên o dro i dro, er enghraifft pan ddywed:

Felly, beth sydd am ddod i'r dyfodol prin?

Ai lleihau ymyrraeth ddynol gan hela'r ffermwyr am sbin?

Barn Heulwen yw bod angen dod o hyd i gyfaddawd sy'n ein galluogi natur i adennill ei phriod le heb ddinistrio amaethyddiaeth. Yn anffodus, mae nifer fawr o wallau iaith elfennol yn y gerdd hon, ac mae hynny'n drueni, oherwydd y mae pob un bron yn un y gellid ei gywiro heb golli dim o ystyr y gerdd. Dwi'n annog Heulwen i gystadlu eto, ond gan sicrhau ei bod hi'n mynd dros ei gwaith ac yn ei gywiro cyn ei gyflwyno.

Ymson a gafwyd gan **Tydu** wedyn, lle mae plentyn yn myfyrio am ddyfodol ei theulu os bydd ei rhieni yn gwerthu'r fferm deuluol am £900,000 i gwmni o Lerpwl fydd yn mynd ati wedyn i blannu coed ar dir y fferm. Crisialir pryder y plentyn fel hyn:

Yn ôl y sôn, maent am brynu'r ffarm er mwyn plannu coed dros ein tir i gyd, coed er mwyn lleihau ôl-troed carbon. Ond pam? Pam ein fferm ni.

Dyma bersbectif gwahanol a thrawiadol ar y pegynnu cyhoeddus rhwng ar y naill law y dyhead i ddychwelyd at natur (a bortreedir yma fel rhyw sgemaeth fasnachol sinigaidd) ac ar y llall yr effaith ar fywyd cefn gwlad ar ffurf plentyn yn gofidio am golli'r cynefin lle mae'n gallu byw yn iach ac yn rhydd.

Gan **Rhyddid** fe gawsom ysgrif fer yn gosod y dadleuon o'r ddwy ochr yn gryno. Hoffais yn arbennig y ffaith i Rhyddid dechrau drwy ddiffinio yn gwmws beth yw ystyr ailwylltio. Roedd yr eglurdeb manwl hwnnw yn apelio yn fawr ataf, ond yn anffodus braidd yn gwa yw'r gwaith hwn, gan orffen yn ffwr-bwt.

Ysgrif sydd gan **Draenog** hefyd, ac er mai ei bod yn ffafrio un ochr y ddadl, mae'n gwneud hynny ar sail ffeithiau a ffigurau sy'n dangos ôl ymchwil. Mae'r ysgrif yn grefftus hefyd drwy gymryd fel thema ganolog dynged y creadur bach pigog sy'n ffugenw i'r cystadleuydd. Mae'r draenog yn darparu darlun i ni o sut mae gweithredoedd barus a diofal dynion wedi arwain at ddifodiant byd natur yn gyffredinol. Mae'r ysgrif yn cloi gyda'r geiriau trawiadol, ond anghysurus, canlynol:

Mae byw yn yr oes hon yn mynd yn anos; mae perthynas dyn a'r draenog yn profi hynny. Mae'r ddaear eisoes yn fflamgoch. Y peth lleiaf allwn ni ei wneud yw derbyn nad y ddynoliaeth yw'r peth pwysicaf ar y blaned, bod cymaint o rywogaethau arbennig, syfrdanol ac annisgrifiadwy o bwysig hefyd yn haeddu byw gymaint â ninnau. Rhaid dod i gyfaddawd, nid yn unig er mwyn y draenog, ond er mwyn dyfodol bywyd ar ein planed.

Dyma waith manwl, wedi ei ysgrifennu mewn Cymraeg clir a chywir, yn rhoi neges amserol i ni, ac mae'n gwbl haeddiannol o dlws yr ifanc yn Eisteddfod Penrhyn-coch eleni.